# Cyngor Sir y Fflint

# Crynodeb Gweithredol

# Asesiad Digonolrwydd Chwarae



2025 - 2028

Dod o hyd i ni ar

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

# Cynnwys


**1. Datganiad Crynodeb yr Awdurdod Lleol** 3

**2. Methodoleg** 4

**3. Sut mae ymgysylltu gyda phlant a theuluoedd wedi dylanwadu ar yr Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol** 4

- Sut mae'r wybodaeth yma wedi dylanwadu ar y Cynllun Gweithredu Chwarae 5

**4. Gwneud y Mwyaf o Adnoddau** 6

**5. Monitro** 7

- Pwy sy'n cymryd Cyfrifoldeb Strategol Arweiniol dros Chwarae yn Sir y Fflint 7
- Sut mae'r Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol yn cysylltu â'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Chynllun Datblygu Lleol 7
- Sut mae'r Cynllun Gweithredu Chwarae yn cael ei fonitro 7
- Hwyluso a Chylch Gorchwyl
- Cryfderau a Chyfleoedd y Grŵp 8
- Cyfleoedd ar gyfer Twf Parhaus 8

**6. Casgliad** 8

**7. Dadansoddiad yn ôl Thema** 9

- Poblogaeth 9
- Llefydd mae plant yn chwarae 10
- Darpariaeth gyda Goruchwyliaeth 11
- Synergedd polisi, ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth 12


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Gweler y dudalen Saesneg ar ein gwefan.
This document is also available in English. See English page on our website.

## Crynodeb Gweithredol o Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol 2025 - 2028: Y sefyllfa o ran chwarae yn Sir y Fflint

# 1. Datganiad Crynodeb yr Awdurdod Lleol

Mae'r dull fesul cam yma'n cael ei arwain a'i fonitro gan y Grŵp Monitro Cyfleoedd Chwarae Digonol, sef corff traws-sector sydd newydd ei sefydlu sy'n cael ei gadeirio gan Aelod Cabinet Addysg, Y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden. Mae'r Grŵp Monitro Cyfleoedd Chwarae Digonol yn cynnwys cynrychiolwyr o Addysg, Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Cymunedol, Cynllunio, Cludiant, y trydydd sector, a phartneriaid rhanbarthol Llywodraeth Cymru, ac mae'n gyfrifol am sicrhau cynnydd, atebolrwydd ac addasrwydd dros oes yr Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Chwarae Digonol, sydd wedi'i ysbrydoli gan gasgliadau Arolwg Chwarae Mawr ac ymgynghoriad aml asiantaeth, yn nodi'r cerrig milltir clir dros y cyfnod o dair blynedd. Mae Blwyddyn 1 yn cynnwys lansio rhaglenni chwarae cynhwysol amlieithog a diwylliannol. Mae Blwyddyn 2 yn blaenoriaethu datblygu pump cynllun 'Llwybrau Diogel i Chwarae', tra bod Blwyddyn 3 yn canolbwyntio ar sefydlu gofynion darpariaeth chwarae mewn i bob polisi cynllunio a datblygu newydd ar draws Sir y Fflint.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob plentyn yn y Sir fynediad at gyfleoedd chwarae diogel, cynhwysol ac ysgogol. Mae'r ymrwymiad yma i'w weld yn Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol, sydd yn adnodd i werthuso darpariaethau chwarae presennol ac adnabod gweithredoedd i sicrhau bod y darpariaethau yma'n bodloni anghenion pob plentyn.  Mae'r Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol yn elfen bwysig o ddull yr Awdurdod Lleol i gyflawni ei rwymedigaethau o dan arweiniad Llywodraeth Cymru a sicrhau y gall plant yn Sir y Fflint gael mynediad at brofiadau chwarae o ansawdd uchel sydd yn cyfrannu at eu datblygiad a'u lles.

Mae Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol 2025–2028 yn nodi strategaeth raddol dros dair blynedd, gan gychwyn ym Mlwyddyn 1 (2025–26) gyda gweithredoedd pwysig yn cynnwys lansio rhaglenni chwarae amlieithog, ymestyn Prosiect Integreiddio Mostyn, a datblygu 5 llwybr diogel i gerddwyr gyrraedd mannau chwarae.  Mae'r cerrig milltir cynnar yma'n sicrhau momentwm o'r dechrau tra'n gosod y sylfeini ar gyfer effaith hirdymor.

Mae'r canlyniadau sy'n deillio o Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol 2025 yn tynnu sylw at gryfderau a meysydd i'w gwella yn narpariaeth Sir y Fflint o gyfleoedd chwarae.  Mae'r asesiad yn nodi tra bod camau breision wedi cael eu cymryd wrth ddarparu chwarae hygyrch a chynhwysol i bob plentyn, mae heriau yn parhau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i blant sydd ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol, ac wrth sicrhau cyllid cyson, hirdymor ar gyfer gwasanaethau chwarae. Fe fydd y meysydd yma'n ffocws pwysig o Gynllun Gweithredu Chwarae, sy'n cynnig mesurau i fynd i'r afael â bwlch mewn darpariaeth, ymestyn mynediad at fannau chwarae, a sicrhau bod pob darpariaeth chwarae yn gynhwysol, yn ddiogel ac wedi'u halinio'n strategol â pholisïau lleol eraill.

Mae'r camau arfaethedig i gyflawni digonedd yn cynnwys gwella mannau chwarae presennol, buddsoddi mewn rhaglenni wedi'u targedu at grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli (megis plant o deuluoedd incwm isel

a lleiafrifoedd ethnig), integreiddio chwarae yn bellach mewn i strategaethau datblygu a chynllunio lleol. Mae Sir y Fflint hefyd wedi ymrwymo i wella cydweithio gyda phartneriaid allanol a chynyddu ymgysylltu â'r gymuned er mwyn sicrhau bod chwarae yn cael ei sefydlu'n llawn ym mywyd pob plentyn.

# 2. Methodoleg

Cynhaliwyd Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol ar gyfer Cyngor Sir y Fflint trwy broses gynhwysfawr oedd yn cynnwys ymgynghoriad helaeth, casglu data a'i ddadansoddi. Roedd yr asesiad yn seiliedig ar gyfuniad o ddata meintiol, yn cynnwys gwybodaeth ddemograffig a'r casgliadau o'r Arolwg Chwarae Mawr, a data ansoddol a gasglwyd gan blant, teuluoedd a budd-ddeiliaid lleol.

Cytunwyd ar yr Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol gan adrannau mewnol allweddol o fewn yr Awdurdod Lleol, yn cynnwys y Tîm Datblygu Chwarae, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Addysg a Chludiant, gan sicrhau dull systemau cyfan i werthuso'r ddarpariaeth chwarae. Ar ben hynny, gweithiodd Sir y Fflint yn agos gyda phartneriaid allanol megis sefydliadau cymunedol, ysgolion, cymdeithasau tai, a gwasanaethau ieuenctid i geisio safbwyntiau am anghenion plant a theuluoedd, yn ogystal ag adnabod cryfderau presennol a meysydd i'w datblygu yn yr amgylchedd chwarae lleol.

Bu'r Awdurdod Lleol hefyd yn ymgysylltu â mentrau Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol, yn enwedig mewn cysylltiad â chyfleoedd ariannu, fframweithiau strategol, a hyrwyddo dull sy'n gyfeillgar i'r plentyn wrth gynllunio a datblygu trefol.

# 3. Sut mae ymgysylltu gyda phlant a theuluoedd wedi dylanwadu ar yr Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol

Mae barn plant a theuluoedd wedi bod yn hollbwysig yn siapio Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol Sir y Fflint. Mae adborth ynglŷn ag argaeledd, ansawdd a hygyrchedd cyfleoedd chwarae wedi tynnu sylw at feysydd i'w gwella.

Mae pryderon am ddiogelwch wedi cael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu, gan ganolbwyntio ar fesurau lleddfu traffig, diogelwch cerddwyr, a sicrhau bod ardaloedd chwarae y dyfodol yn cael eu dylunio gyda diogelwch fel blaenoriaeth. Mae hyn yn cynnwys gwella diogelwch ffyrdd mewn ardaloedd lle mae plant yn teimlo'n anniogel, a sicrhau bod mannau chwarae newydd yn hygyrch ac yn ddiogel i'w cyrraedd.

Mae'r angen am fwy o fannau chwarae lleol, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n cael eu tan-wasanaethu a gwledig, wedi arwain at gynlluniau i greu mannau chwarae ychwanegol. Bydd y rhain yn wedi'u

hanelu at grwpiau oedran amrywiol a byddant yn amlswyddogaethol, gan sicrhau y gall plant gael mynediad at amgylcheddau chwarae o safon.

Mae adborth ar fannau chwarae cynhwysol wedi arwain at ffocws cryf i wneud mwy o ardaloedd chwarae yn gwbl hygyrch. Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys gwaith ôl-osod ar ddatblygiadau newydd ac ailddatblygu mannau presennol i blant sydd ag anableddau gan greu canolbwyntiau chwarae cynhwysol newydd, a chydweithio gyda grwpiau anabledd ac arbenigwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol i fodloni anghenion amrywiol.

**Sut mae'r wybodaeth yma wedi dylanwadu ar y Cynllun Gweithredu Chwarae**

Fe ddylanwadodd y data gan blant a theuluoedd yn uniongyrchol ar Gynllun Gweithredu Chwarae, sy'n cynnwys y mesurau canlynol:

1. **1. Cynyddu Mannau Chwarae:** Creu ardaloedd chwarae mwy hygyrch, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a rhai sy'n cael eu tan-wasanaethu, yn cynnwys llefydd i blant gydag anableddau.
2. **Gwella Diogelwch**: Cyflwyno mesurau diogelwch megis mannau croesi i gerddwyr, twmpathau arafu cyflymder, a llwybrau mwy diogel i fannau chwarae.
3. **Gwella Cynhwysiant**: Datblygu ardaloedd chwarae cynhwysol gyda nodweddion synhwyraidd, offer y gellir eu defnyddio mewn cadair olwyn, ac arwyddion dwyieithog i blant sy'n siarad Cymraeg.
4. **Creu Cysylltiadau Cymunedol**: Parhau i gydweithio gyda grwpiau cymunedol, ysgolion, a phartneriaid allanol er mwyn sicrhau bod mannau chwarae yn adlewyrchu anghenion diwylliannol a chymdeithasol.
5. **Ehangu Amrywiaeth Diwylliannol ac Integreiddio Cymdeithasol**: Hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol drwy ddarpariaethau chwarae newydd sydd yn annog cynhwysiad cymdeithasol ac integreiddio i blant o bob cefndir.



# 4. Gwneud y Mwyaf o Adnoddau

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud cynnydd sylweddol yn gwneud y mwyaf o adnoddau sydd ar gael i gefnogi cyfleoedd plant i chwarae. Trwy ddyrannu cyllid yn effeithiol a chydweithio gyda phartneriaid lleol, mae'r Cyngor wedi creu dull cynaliadwy i ddarpariaeth chwarae. Mae hyn yn cynnwys integreiddio mentrau chwarae gyda gwasanaethau eraill, megis Addysg, Gwasanaethau Plant, a Gwasanaethau Cymunedol, i wneud y mwyaf o adnoddau ac osgoi dyblygu.

Mae'r Tîm Datblygu Chwarae wedi llwyddo i sicrhau cyllid ychwanegol drwy grantiau lleol a ffynonellau allanol, megis cyllid Cyngor Tref a Chymuned, i gefnogi rhaglenni fel Cynllun Chwarae'r Haf, sy'n gweithredu mewn dros 45 o leoliadau. Fe fu yna gynnydd nodedig mewn buddsoddiad mewn ardaloedd gwledig, gyda gwasanaethau chwarae symudol yn cael eu cyflwyno i ddod â chwarae i gymunedau sy'n cael eu tan-wasanaethu, gan sicrhau mynediad teg ar draws Sir y Fflint.

Ers yr Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol diwethaf, mae Datblygu Chwarae Sir y Fflint wedi ymestyn ei ddarpariaeth chwarae y tu hwnt i fisoedd traddodiadol yr haf, gan symud i fodel cyflawni gydol y flwyddyn. Mae'r newid hwn yn sicrhau bod chwarae'n parhau'n flaenoriaeth nid yn unig yn ystod gwyliau'r ysgol, ond drwy gydol tymor yr ysgol hefyd. Yn ychwanegol, mae adnoddau wedi cael eu dargyfeirio i ardaloedd gwledig, gan sicrhau bod plant yn y cymunedau yma'n cael mynediad cyson i wasanaethau chwarae gydol y flwyddyn.

Mae Sir y Fflint wedi defnyddio sawl rhaglen Llywodraeth Cymru yn effeithiol i wella ei ddarpariaeth chwarae ymhellach hefyd:

1. Mae **Deddf Teithio Llesol** wedi gwella llwybrau diogel i fannau chwarae, yn enwedig i blant mewn ardaloedd sydd ag ychydig o ddewisiadau cludiant.
2. Mae cyllid **Llwybrau Diogel mewn Cymunedau** wedi cael ei ddefnyddio i greu llwybrau cerdded a beicio mwy diogel i ardaloedd chwarae, gan sicrhau hygyrchedd a diogelwch.
3. Mae **Grant Plant a Chymunedau** wedi cefnogi prosiectau chwarae cynhwysol, gan sicrhau mynediad i blant o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
4. Mae cyllid **Dechrau'n Deg** wedi cael ei integreiddio mewn i ddarpariaeth chwarae blynyddoedd cynnar, gan hyrwyddo datblygiad cymdeithasol ac emosiynol i blant o dan 5.
5. Mae S**trategaeth Dwyieithrwydd Llywodraeth Cymru** wedi ymestyn gwasanaethau chwarae cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau eu bod ar gael i blant sy'n siarad Cymraeg.

Drwy roi pwyslais ar y rhaglenni yma, mae Sir y Fflint yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n effeithlon a'u bod yn cyd-fynd â pholisïau cenedlaethol. Mae'r Cyngor yn parhau â'i ddull o wella cyfleoedd chwarae, gyda ffocws ar gynaliadwyedd, cydweithio, a mynediad teg i bob plentyn.

# 5. Monitro

Mae monitro effeithiol yn allweddol i weithredu'r Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol a'i Gynllun Gweithredu yn llwyddiannus. Tra bod Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud cynnydd yn integreiddio chwarae mewn i strategaethau ehangach, mae'r broses o fonitro dal yn cael ei chwblhau. Mae'r adran yma'n amlinellu cyfrifoldebau strategol dros chwarae, cysylltiadau Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol â fframweithiau rhanbarthol a lleol, a'r sefyllfa bresennol o ran monitro.

**Pwy sy'n cymryd Cyfrifoldeb Strategol Arweiniol dros Chwarae yn Sir y Fflint**

Mae cyfrifoldeb strategol dros chwarae yn gorwedd gyda'r Swyddog Arweiniol dros Ddatblygu Chwarae a'r Tîm Datblygu Chwarae, sydd yn goruchwylio cyflawni gwasanaethau chwarae ar draws Sir y Fflint. Mae'r tîm yn cydweithio gyda Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Addysg, Tai a Chludiant i gydlynu cyfleoedd chwarae. Serch hynny, fe allai'r strwythur monitro gael ei wella ymhellach gyda goruchwyliaeth fwy ffurfiol er mwyn sicrhau eu bod gwasanaethau chwarae yn cael eu darparu a'u gwerthuso yn gyson.

**Sut mae'r Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol yn cysylltu â'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Chynllun Datblygu Lleol**

Mae'r Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol yn cyd-fynd â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint, yn cyfrannu at fentrau sy'n canolbwyntio ar les, iechyd meddwl a diogelwch cymunedol plant. Bydd cryfhau integreiddiad yr Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol mewn i gynlluniau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cefnogi'r amcanion yma ymhellach.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru hefyd yn defnyddio'r Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol i alinio gwasanaethau chwarae gyda strategaethau plant a theuluoedd rhanbarthol. Ar ben hynny, bydd cynnwys yr Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol yn y Cynllun Datblygu Lleol yn sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol yn cynnwys darpariaethau chwarae, megis parciau a llwybrau diogel, gan wella mynediad at chwarae i bob plentyn.

**Sut mae'r Cynllun Gweithredu Chwarae yn cael ei fonitro**

mae'r gwaith monitro yn cael ei wneud drwy gydweithio adrannol, ond byddai'n elwa o fod â dull mwy ffurfiol, mwy cydlynol. Bydd y Grŵp Monitro Cyfleoedd Chwarae Digonol yn cael ei sefydlu i oruchwylio cynnydd a sicrhau bod y cynllun gweithredu yn parhau ar y trywydd iawn. Aelodaeth a Strwythur arfaethedig y Grŵp Monitro Cyfleoedd Chwarae Digonol:

Bydd y Grŵp Monitro Cyfleoedd Chwarae Digonol yn dod â budd-ddeiliaid allweddol ynghyd i fonitro a gwerthuso cynnydd y Cynllun Gweithredu Chwarae. Bydd yr aelodau'n cynnwys:

- Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden (Cadeirydd)
- Swyddog Arweiniol Datblygu Chwarae
- Cynrychiolwyr o Wasanaethau Plant a Theuluoedd, Addysg, Gwasanaethau Cymunedol, Parciau, Cludiant, Cynllunio a sefydliadau cymunedol allanol
- Cynrychiolwyr rhieni a phlant er mwyn sicrhau cyfraniad gan y gymuned
- Llywodraeth Cymru neu bartneriaid rhanbarthol perthnasol

**Hwyluso a Chylch Gorchwyl**

Bydd y Swyddog Arweiniol yn hwyluso'r grŵp, yn sicrhau cyfarfodydd effeithlon ac adolygu cynnydd yn rheolaidd. Bydd y grŵp yn gweithio o dan gylch gorchwyl clir gyda chyfrifoldebau, canlyniadau ac amserlenni diffiniedig.

**Cryfderau a Chyfleoedd y Grŵp**

Bydd y grŵp yn pwysleisio persbectifau gwahanol gan fudd-ddeilliad mewnol ac allanol, gan sicrhau bod anghenion pob plentyn cael eu cynrychioli. Mae'n ddull amlsector a fydd yn gwella effeithiolrwydd Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Chwarae Digonol ac yn sicrhau bod chwarae yn cael ei flaenoriaethu ar draws gwaith y Cyngor, o gynllunio trefol i ddatblygu cymunedol.

**Cyfleoedd ar gyfer Twf Parhaus**

Bydd y grŵp yn esblygu yn seiliedig ar anghenion y gymuned a chynnydd y cynllun gweithredu. Bydd sicrhau ymgysylltu ac ymrwymiad cyson gan aelodau yn allweddol i'w lwyddiant.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i wella darpariaeth chwarae i bob plentyn. Bydd sefydlu strwythur monitro ffurfiol drwy'r Grŵp Monitro Cyfleoedd Chwarae Digonol yn adeiladu ar gynnydd presennol ac yn sicrhau bod llwyddiant yn cael ei gynnal. Bydd hyn, yn ogystal â chysylltiadau cryfach gyda fframweithiau cynllunio rhanbarthol a lleol, yn cynyddu atebolrwydd ac yn atgyfnerthu chwarae fel blaenoriaeth strategol.

# 6. Casgliad

Mae'r Asesiad o Gyfleoedd Chwarae Digonol wedi rhoi trosolwg gwerthfawr i Gyngor Sir y Fflint o gyflwr darpariaeth chwarae presennol, gan dynnu sylw at feysydd lle mae cynnydd wedi bod, ac adnabod cyfleoedd ar gyfer gwelliant. Mae'r cipolwg o'r broses hon wedi siapio'r Cynllun Gweithredu Chwarae sy'n cyd-fynd ag ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddarparu cyfleoedd chwarae cynhwysol a hygyrch o ansawdd uchel i bob plentyn.

Mae canlyniadau allweddol o'r asesiad yn cynnwys mwy o bwyslais ar fannau chwarae cynhwysol, ymgysylltu â'r gymuned, a sicrhau mynediad i ardaloedd chwarae lleol, diogel. Mae'r llwyddiannau yma, ynghyd â'r gwaith parhaus o fynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth, yn arddangos ymrwymiad Sir y Fflint i wella lles plant a sicrhau bod chwarae yn cael ei flaenoriaethu mewn polisïau lleol.

Gan edrych ymlaen, bydd y Grŵp Monitro Cyfleoedd Chwarae Digonol yn hollbwysig yn sicrhau y bydd y Cynllun Gweithredu Chwarae yn cael ei weithredu'n effeithiol, a bod cynnydd yn cael ei werthuso'n barhaus. Gyda ffocws clir ar ymestyn a gwella mannau chwarae, ymgysylltu gyda chymunedau, a sicrhau cyllid cynaliadwy, mae Sir y Fflint mewn sefyllfa dda i adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud a pharhau i wneud gwelliannau ystyrlon i ddarpariaeth chwarae.

Bydd y camau nesaf yn canolbwyntio ar gryfhau cydweithio, cynyddu mynediad i chwarae, a sicrhau bod chwarae yn parhau'n rhan ganolog o flaenoriaethau strategol y Cyngor. Wrth i Sir y Fflint weithio tuag at y golau yma, bydd ymdrechion adrannau lleol, partneriaid a chymunedau yn hollbwysig i greu amgylchedd chwarae cynaliadwy a bywiog i bob plentyn.

# 7. Dadansoddiad yn ôl Thema

**Poblogaeth:**

**Mater A: Y nifer o blant mewn cysylltiad ag ystod oedran yn yr ardal**

**Mater B: Anghenion plant o ddiwylliannau a chefndiroedd gwahanol yn yr ardal**

**Mater E: A oes yna ffi am ddarpariaeth chwarae a ble mae'r ffi**

**Yr hyn y mae plant wedi'i ddweud wrthym ni:**

Mae plant wedi mynegi angen am fannau chwarae mwy hygyrch, yn enwedig i blant iau mewn ardaloedd gwledig a phlant hŷn sy'n chwilio am gyfleoedd chwarae annibynnol. Fe wnaethant hefyd sôn am bwysigrwydd ardaloedd chwarae cynhwysol sy'n adlewyrchu amrywiaeth diwylliannol a chefnogi pob cefndir.

**Cryfderau**

- Mae Sir y Fflint yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau chwarae ar draws grwpiau oedran gwahanol, yn cynnwys cyfleoedd wedi'u teilwra i blant iau mewn ysgolion a chynlluniau gwyliau.
- Mae gan ganran nodedig o blant rhwng 5-12 mlwydd oed fynediad at gynlluniau chwarae lleol yn y gymuned, sydd wedi gweld cynnydd mewn ymgysylltu a chyfranogi.

**Gwendidau**

- Mae gan blant iau mewn ardaloedd gwledig llai o lefydd chwarae hygyrch o fewn pellter cerdded.
- Fe soniodd plant hŷn (12-16 mlwydd oed) am gyfleoedd chwarae cyfyngedig, yn enwedig rheini sydd eisiau chwarae annibynnol neu ddi-strwythur, megis llefydd i dreulio amser yn benodol i blant yn eu harddegau neu gyfleusterau chwaraeon.

**Cyfleoedd**

- Gall buddsoddiadau wedi'u targedu mewn mannau chwarae ieuenctid yn benodol i blant hŷn, megis ardaloedd chwaraeon awyr agored fynd i'r afael ag anghenion y grŵp oedran yma.
- Gallai cynyddu cynlluniau chwarae symudol i ardaloedd gwledig gyrraedd plant iau sy'n cael eu tan-wasanaethu ar hyn o bryd.

**Bygythiadau**

- Gallai'r perygl o boblogaethau sy'n tyfu mewn ardaloedd penodol roi pwysau ar fannau ac isadeiledd chwarae presennol, gan gyfyngu ar argaeledd ardaloedd diogel, hygyrch i blant.
- Gall demograffeg newidiol ei gwneud hi'n anodd bodloni anghenion chwarae amrywiol ystod oedran ehangach heb fwy o fannau chwarae hygyrch y gellir eu haddasu.

## Llefydd mae plant yn chwarae:

**Mater C: Lle gall plant chwarae, yn cynnwys lle agored, ac unrhyw le arall**

**Mater F: Mesurau traffig sy'n cael eu defnyddio i hybu mynediad i chwarae**

**Mater I: Y graddau y mae polisïau addysg a chynllun datblygu lleol yn ystyried yr angen i wella cyfleoedd chwarae i blant**

### Yr hyn y mae plant wedi'i ddweud wrthym ni:

Mae plant wedi dweud wrthym ni eu bod yn mwynhau amrywiaeth o fannau chwarae, ond maent eisiau ardaloedd awyr agored sy'n fwy hygyrch yn eu cymdogaethau, yn enwedig llefydd i chwarae'n annibynnol, megis parciau diogel neu fannau agored yn agos at eu cartrefi.

### Cryfderau

- Mae gan Sir y Fflint rwydwaith da o barciau cyhoeddus a mannau agored y gall plant fynd iddynt am ddim.
- Yn aml mae yna ddigon o strwythurau chwarae rhyngweithiol mewn ardaloedd chwarae a mannau amlswyddogaethol i grwpiau oedran gwahanol

### Gwendidau

- Mae yna ddiffyg llefydd chwarae penodol neu ardaloedd chware sydd yn anodd eu cyrraedd yn sgil cysylltiadau cludiant gwael, yn enwedig mewn cymunedau gwledig.
- Fe ystyrir bod nifer o fannau chwarae yn cael eu tanddefnyddio gan nad oes ganddynt nodweddion sy'n denu plant hŷn neu blant sydd ag anableddau.

### Cyfleoedd

- Gallai creu ardaloedd chwarae amlddefnydd sy'n addas i grwpiau oedran gwahanol a chynnwys chwarae sy'n seiliedig ar natur, ddarparu mannau newydd i blant eu mwynhau.
- Gallai mwy o fuddsoddiad mewn parthau chwarae awyr agored gefnogi mwy o ddysgu amgylcheddol a chysylltu plant yn well gyda natur.

### Bygythiadau

- Gallai llefydd cyfyngedig i ddatblygu mewn ardaloedd trefol leihau'r cyfle i greu mannau chwarae newydd mewn ardaloedd sydd â phoblogaethau sy'n tyfu.
- Gallai blerdwf trefol arwain at ardaloedd chwarae yn cael eu disodli neu gallai datblygiadau newydd ennill tir, gan adael llai o lefydd i blant.

## Darpariaeth gyda Goruchwyliaeth:

**Mater D: Darpariaeth gyda goruchwyliaeth:**

**Mater G: Hyfforddiant gwaith chwarae a Datblygu'r gweithlu**

### Yr hyn y mae plant wedi'i ddweud wrthym ni:

Mae plant wedi mynegi awydd am fwy o gyfleoedd chwarae di-strwythur y tu allan i'r ysgol, yn enwedig yn ystod gwyliau'r ysgol, lle gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u goruchwylio sydd yn hwyliog ac wedi'u harwain gan blant. Fe soniodd rhywfaint o'r plant hefyd yr hoffent fwy o amrywiaeth yn y sesiynau chware dan oruchwyliaeth sy'n cael eu cynnig, megis gweithgareddau nad ydynt yn canolbwyntio ar chwaraeon yn unig, ond yn cynnwys celfyddydau, crefftau a chwarae sy'n seiliedig ar natur.

### Cryfderau

- Mae Sir y Fflint yn cynnig ystod eang o raglenni chwarae dan oruchwyliaeth i blant, yn benodol drwy fentrau megis Cynllun Chwarae'r Haf a darpariaethau min nos ac yn ystod y gwyliau.
- Mae'r rhaglenni yma'n boblogaidd, ac mae sesiynau di-strwythur yn galluogi i blant ddysgu sgiliau newydd ac ymgysylltu mewn darpariaeth chwarae diogel, hwyliog o dan oruchwyliaeth oedolyn.

### Gwendidau

- Dywedodd rhai o'r plant fod argaeledd chwarae yn gyfyngedig mewn ardaloedd gwledig penodol, gan arwain at lai o gyfleoedd i'r plant hynny gymryd rhan mewn gweithgareddau.
- Mae yna hefyd adborth bod yr ystod o weithgareddau mewn rhaglenni dan oruchwyliaeth fod yn gul, ac weithiau mae plant yn teimlo nad ydi'r gweithgareddau wedi'u hanelu at eu diddordebau, yn enwedig i blant hŷn.

### Cyfleoedd

- Gallai ymestyn yr amrywiaeth o weithgareddau chwarae dan oruchwyliaeth sy'n cael eu cynnig, yn enwedig i blant hŷn, sicrhau bod ystod ehangach o ddiddordebau'n cael sylw.
- Gallai cynyddu ymdrechion estyn allan mewn cymunedau gwledig wneud y rhaglenni yma'n fwy hygyrch i blant sy'n byw mewn ardaloedd llai trefol.

### Bygythiadau

- Heb fuddsoddiad parhaus mewn rhaglenni chwarae dan oruchwyliaeth, mae yna risg y gallai'r galw fod yn fwy na'r ddarpariaeth, yn enwedig yn ystod gwyliau'r ysgol, gan arwain at sesiynau sy'n orlawn neu raglenni sydd methu darparu i bob plentyn sydd â diddordeb.
- Gallai cyfyngiadau cyllidebol neu brinder staff hefyd gyfyngu ar y gallu i ymestyn neu gynnal rhaglenni dan oruchwyliaeth ar y lefel bresennol.

**Synergedd polisi, ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth:**

**Mater F: Mesurau a ddefnyddir i hyrwyddo mynediad i chwarae, yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau**

**Mater G: Cyfleoedd hyfforddi ar gyfer y gweithlu chwarae**

**Mater H: Lefel y cyfranogiad ac ymgysylltiad cymunedol**

**Mater I: Y graddau y mae polisïau eraill Awdurdod Lleol yn ystyried yr angen i wella cyfleoedd chwarae i blant**

**Yr hyn y mae plant wedi'i ddweud wrthym ni:**

Mae plant wedi dweud eu bod eisiau mwy o wybodaeth o ran ble y gallant gael cyfleoedd i chwarae. Mae nifer o blant yn teimlo nad ydi ymdrechion cyhoeddusrwydd, megis taflenni a phlatfformau ar-lein bob amser yn glir neu'n hawdd i'w cael, yn enwedig o ran rhaglenni newydd neu dymhorol.

**Cryfderau**

- Mae Sir y Fflint wedi gwneud camau breision o ran hyrwyddo mynediad i chwarae drwy dudalen Datblygu Chwarae Sir y Fflint ar Facebook ac Instagram a gwefan Datblygu Chwarae Sir y Fflint sydd wedi'i ailwampio, ac mae hyn wedi helpu i godi ymwybyddiaeth am gyfleoedd chwarae sydd ar gael.
- Mae digwyddiadau llwyddiannus fel diwrnodau chwarae cymunedol a gwyliau wedi bod yn boblogaidd ymysg plant, gan roi cyfle iddynt ymgysylltu gyda darparwyr chwarae lleol a mwynhau gweithgareddau am ddim.

**Gwendidau**

- Mae rhai o'r plant yn teimlo bod yna ddiffyg gwybodaeth ganolog am fannau chwarae lleol, ac nid yw pob digwyddiad neu gyfle yn cael cyhoeddusrwydd effeithiol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- Gall mynediad digidol at wybodaeth chwarae fod yn rhwystr i rai plant, yn enwedig mewn aelwydydd lle mae mynediad i'r rhyngrwyd wedi'i gyfyngu.

**Cyfleoedd**

- Gallai cynyddu'r defnydd o apiau symudol neu wefannau rhyngweithiol sy'n darparu gwybodaeth amser real am fannau chwarae, digwyddiadau a gweithgareddau sydd ar gael, wella mynediad at wybodaeth chwarae i blant.
- Gall ymdrechion estyn allan cymunedol mewn ysgolion, canolfannau cymunedol, a llyfrgelloedd, helpu i sicrhau bod pob teulu, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig neu incwm isel, yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael.

**Bygythiadau**

- Gall gorddibyniaeth ar blatfformau digidol adael plant a theuluoedd heb fynediad hawdd at dechnoleg neu'r rhyngrwyd, gan waethygu anghydraddoldeb o ran mynediad at wybodaeth.
- Gallai diffyg ariannu posibl ar gyfer ymgyrchoedd hyrwyddo gyfyngu ar allu i estyn cynulleidfa ehangach a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd chwarae yn lleol.